Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt

Cylchlythyr

Mai 2022

Annwyl Rieni / Warchodwyr

Mae wedi bod yn dipyn o amser ers inni lunio cylchlythyr ddiwethaf. Rydym wedi bod yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o'n tudalen Facebook a'n gwasanaeth neges destun i gyfathrebu'n fwy uniongyrchol â rhieni, ond hoffem ddefnyddio'r fformat hwn i dynnu ynghyd a rhannu rhai dyddiadau pwysig ar gyfer eich dyddiaduron. Wrth lacio'r rhan fwyaf o gyfyngiadau Covid, rydym bellach yn gallu gwneud llawer mwy gyda'r plant.

Dyddiadau Pwysig

<u>Mis Mai</u>

13eg – Dydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) gyfer Bl 5 a Bl 6.

19eg – Rhedeg Traws Wlad yn Llanelwedd Bl.3 i Fl.6.

25ain – Ymweliad CA2 y Ffwrd Saesneg â Sain Ffagan.

26ain – Ffotograffau Colorfoto o ddosbarthiadau a'r rhai sy'n gadael Blwyddyn 6 (yn eu 'hwdis' newydd os gwelwch yn dda).

27ain – Dathliadau Jiwbili: diwrnod dim gwisg ysgol – diwrnod gwisgo'n grand/smart; CA2 y Ffrwd Gymraeg i weld 'Twm Sion Cati' yn Theatr Brycheiniog

Dydd Llun 30ain Mai – Dydd Gwener 3ydd Mehefin – Hanner Tymor gan gynnwys Gwyliau Jiwbilî

(2il a 3ydd Mehefin)

<u>Mis Mehefin</u>

6ed – Cystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd ar gyfer Bl 5/6.

13eg – Ymweliad Ffrwd Gymraeg CA2 â Sain Ffagan.

15fed – Diwrnod Cwrs Ymosodiadau'r Fyddin Bl 3/4

16eg – Diwrnod Mabolgampau (CA2 yn y bore/ Cyfnod Sylfaen yn y Prynhawn). Mwy i ddilyn.

27ain – Mae hwn yn ddiwrnod HMS i staff baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru.

<u>Mis Gorffennaf</u>

4ydd-8fed – Wythnos Bontio ar gyfer Blwyddyn 6 yn trosglwyddo i Ysgol Calon Cymru.

Dydd Llun 4ydd a Dydd Llun 11eg – Nosweithiau Rhieni ar gyfer y Ffrwd Saesneg.

Dydd Mercher 6ed a Dydd Mercher 13eg – Nosweithiau Rhieni ar gyfer y Ffrwd Gymraeg.

8fed – Adroddiadau i Rieni.

14eg –Ymadawyr Bl. 6; Gŵyl Haf Ffrindiau'r Ysgol – BBQ a Bronwen Lewis; Egwyl ar gyfer yr Haf

15fed - Diwrnod HMS Staff

Mae Dydd Iau, 1af Medi yn ddiwrnod HMS. Mae'r plant yn dychwelyd i'r ysgol Ddydd Gwener 2il Medi.

Mae Dydd Llun 26ain Medi yn ddiwrnod HMS ychwanegol ar gyfer Clwstwr Ysgol Calon Cymru yn unig.

Canllawiau Covid / Rheoli Heintiau
Rydym yn dilyn 'Cyngor Iechyd y Cyhoedd i Ysgolion: Coronafeirws' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 5 Mai 2022 a 'Ysgolion: Canllawiau Coronafeirws' a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 16 Mai 2022. Mae'r mesurau craidd sydd gennym ar waith yn cynnwys:

- Pob aelod o'r staff a'r disgyblion i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer hunanynysu.
- Golchi dwylo a moesau anadlu (Catch It, Bin It. Kill It).
- Sicrhau awyru digonol.

A all fy mhlentyn fynychu'r ysgol os oes annwyd arnynt?

Os oes gan blentyn symptomau ysgafn tebyg i annwyd, dylent barhau i fynychu'r ysgol, os yw'n addas i wneud hynny.

Mae'r tri phrif **symptom o COVID-19** y dylech fod yn ymwybodol ohonynt:

- peswch parhaus newydd
- twymyn neu dymheredd uchel
- colli, neu newid mewn, ymdeimlad o arogl neu flas

Os bydd eich plentyn yn datblygu un o'r symptomau hyn dylent ddilyn y **cannlawiau hunan-ynysu** a dylent gymryd prawf.

Nid ydym bellach yn argymell bod plant o dan 5 oed yn cymryd profion COVID-19 heb symptomau. Os oes gan blant o dan 5 oed symptomau, ni fyddem yn argymell profion fel mater o drefn oni bai eu bod yn cael eu cyfarwyddo i wneud hynny gan feddyg neu os yw'r rhieni'n credu bod prawf yn gwbl angenrheidiol ac er lles gorau'r plentyn.

Ychydig o uchafbwyntiau'r ysgol

Blwyddyn 6 yn modelu eu hwdis Ymadawyr Newydd,

Gweithgareddau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) a ddarperir gan Grŵp Peirianneg Canolbarth Cymru

Cafodd Dosbarth Tryfan a Dosbarth Pen y Fan gyflwyniad ysbrydoledig ar ryfeddodau gwyddoniaeth a thechnoleg ac am y posibiliadau niferus sydd ar gael i weithio yn y maes hwn pan fyddant yn hŷn. Roedd pob plentyn yn gallu adeiladu bwrdd cylched trydan ac yna, gyda'i gilydd, roeddent wedi adeiladu tetrahedron 4 metr o uchder (gweler isod).

Daeth Paul Rowe i ddysgu sgiliau criced

i bob dosbarth.

Gwahoddodd Ms Cuthbertson Ddosbarth Cadair Idris i Ysgol Calon Cymru i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 10 ar brosiect Technoleg Dylunio.

Dysgodd Gruff, o Fenter Brycheiniog a Maesyfed, lawer o gemau buarth hwyliog i bawb eu chwarae gan ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Y timau rygbi oedd yn cynrychioli'r ysgol yn nhwrnamaint yr Urdd ar 27 Ebrill. Daeth y bechgyn yn ail ac roedd y merched wedi cyrraedd y rownd gynderfynol.

Mwynhaodd y Cyfnod Sylfaen bicnic gyda'i gilydd ym Mharc Creigiau, Llandrindod cyn mynd i Theatr Albert i wylio'r ddrama 'The Smartest Giant in Town' yn seiliedig ar y llyfr gan Julia Donaldson.

Roedd PC Viv Ainsworth wedi ymweld â phob dosbarth. Yma mae hi'n dangos car heddlu i Ddosbarth Irfon.

Cwis Dim Clem – dyma enillwyr cystadleuaeth 2022 gyda'r trefnydd, Tudur. Llwyddodd y tîm o Ddosbarth Tryfan i guro cystadleuaeth brwd o sawl ysgol arall.

Roedd nifer o blant o'r Ffrwd Gymraeg wedi cystadlu yn y cystadlaethau unawd a llefaru unigol yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd yn Aberhonddu ar Ddydd Sadwrn Mawrth 26ain. Dyma'r canlyniadau:

Unawd dan 8 – 1af Alaw Davies; 2il Erin Davies

Llefaru dan 8 – 1af Kathryn Pope; 3ydd Alaw Davies

Unawd dan 10 – 1af Rhiannon Pugh

Bydd Alaw, Kathryn a Rhiannon yn cynrychioli De Powys yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych yn ystod gwyliau'r hanner tymor. DA IAWN A PHOB LWC I CHI FERCHED! ((gweler isod).

Amgylchedd Ddysgu Allanol: rydym yn ddiolchgar iawn i FFRINDIAU'R YSGOL sy'n ein helpu i ddatblygu ein hamgylchedd ddysgu allanol. Rydym wrth ein bodd gyda'r byrddau allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a brynwyd o PTP, y byrddau a'r meinciau pren yn yr ysgubor a brynwyd o Evergreen Timber Works a'r ceginau mwd o Landscapes for Learning.

Hoffwn ddweud DIOLCH YN FAWR wrth Stuart Powell a Dorian Davies am roi o'u hamser a'u harbenigedd i baratoi sylfaen i ni ar gyfer dosbarth pren a fydd yn cyrraedd o PTP cyn bo hir. Hefyd, DIOLCH YN FAWR i Brennan Chester sydd wedi gwneud set o flociau pren ar gyfer amser chwarae; tad-cu Jacob Kuker sydd wedi gwneud dau gegin fwd mawr i ni ac i Tony Brook am wneud cymeriadau bach pren i ni. Rydym yn werthfawrogol iawn o'ch amser a'ch ymdrech i gyd.

Clwb Gwyliau Busy Bees

Ein nod yw agor ein Clwb Gwyliau ar Ddydd Llun 30 a Dydd Mawrth 31 Mai yn ystod hanner tymor. Anfonwch neges at dudalen Facebook Busy Bees neu cysylltwch â swyddfa'r ysgol i archebu lle.

Iechyd a Diogelwch / Rheoli Traffig

Cyfarfu Hannah Jones (Cadeirydd y Llywodraethwyr) a minnau â swyddogion o Gyngor Sir Powys Dydd Gwener 29 Ebrill i drafod ein pryderon ynghylch rheoli traffig ar safle'r ysgol ac o'i hamgylch. Ein nod yw ymateb i'r pryderon a godwyd gan nifer o rieni yn ein harolwg Diogelu a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Fe'n hysbyswyd, gan fod y ffordd y tu allan i'r ysgol yn barth parhaol o 20 m.y.a. na fyddai Powys yn caniatáu croesfannau nac arwyddion fflachio 20 m.y.a. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar ffyrdd o leihau cyflymder traffig drwy'r maes parcio ac i sicrhau bod cerddwyr yn symud yn fwy diogel yn yr ardal hon ac o'i hamgylch. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi unwaith y byddwn yn gwybod mwy.

Yn y cyfamser, ac er budd diogelwch pawb, cofiwch mai 5 m.y.a yw'r terfyn cyflymder drwy'r maes parcio Peidiwch â gollwng plant wrth ymyl y ffordd yn y bae bysiau nac yn y ffordd wrth fynedfa'r ysgol. Cymerwch ychydig funudau eto i barcio'ch car a helpu i sicrhau bod eich plentyn yn croesi'n ddiogel i giât yr ysgol. Gwnewch yn siŵr hefyd bod unrhyw aelodau o'r teulu sy'n cynorthwyo ar adegau gollwng yn ymwybodol o'n disgwyliadau.

Cofion Cynnes,

G. Cornelius

Headteacher / Prifathro